# Mesur Addysg (Cymru) 2009

**2009 mccc 5**

## RHAN 2

AMRYWIOL A CHYFFREDINOL

*Cyffredinol*

### 24 Gorchmynion a rheoliadau

(1) Mae unrhyw bŵer sy'n perthyn i Weinidogion Cymru i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Mesur hwn yn arferadwy drwy offeryn statudol.

(2) Mae unrhyw bŵer sy'n perthyn i Weinidogion Cymru i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Mesur hwn yn cynnwys pŵer—

(a) i wneud darpariaeth wahanol ar gyfer achosion neu ardaloedd gwahanol;

(b) i wneud darpariaeth yn gyffredinol neu mewn perthynas ag achosion penodol;

(c) i wneud y cyfryw ddarpariaeth gysylltiedig, atodol, darfodol, trosiannol neu arbed ag y gwêl Gweinidogion Cymru'n dda ei gwneud.

[F1](3) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

(4) Ni chaniateir gwneud offeryn statudol yn cynnwys gorchymyn o dan adran [F2]... 20 onid oes drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** A. 24(3) wedi ei hepgor (1.9.2021) yn rhinwedd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (anaw 2), a. 100(3), **Atod. 1 para. 18(3)(a)**; O.S. 2021/373, ergl. 8(j)(xxxi)

**F2** Geiriau yn a. 24(4) wedi eu hepgor (1.9.2021) yn rhinwedd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (anaw 2), a. 100(3), **Atod. 1 para. 18(3)(b)**; O.S. 2021/373, ergl. 8(j)(xxxi)

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Addysg (Cymru) 2009, Adran 24. (See end of Document for details)*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 24 mewn grym ar 9.2.2010, gweler **a. 26(1)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Addysg (Cymru) 2009, Adran 24.